

Elfen 1

Brotherton,G. a Davies,H. a McGillivray,G. (2010) *Working with children, Young People and families*. Washington:SAGE.

Clarke,A. a Moss,P. (2001) *Listening to Young Children*. Norwich: =National Children's Bureau Enterprises Ltd.

Curtis, A. (1998) *A Curriculum for the pre-school child*. (2nd ed) London : Routledge.

David, T. (1999) *Young children learning*. London : SAGE .

Davis,J,M. (2015) *YOUNG CHILDREN AND THE ENVIROMENT*. (2ND ed) Sydney:C.O.S printers Pte Ltd.

Driscoll,P. a Lambirth,A. et al. (2015) *The Primary Curriculum*. London : SAGE .

Kauchak,D,P. a Eggen,P,D. (1989) *Learning & Teaching RESEARCH-BASED METHODS*. (3rd ed) Boston:Allyn and Bacon.

KjØrholt,A,T. (2008) (chapter nine) *The competent child and 'the right to be oneself': reflections on children as fellow citizens in an early childhood centre*. Bristol:Policy Press.

Lefevre,M. (2015) *Communicating with children and young people*. Great Britain:CMP.

Pollard,A. a Black-Hawkins,K. a Hodges,G,C. a Dudley,O. a James, M. a Linklater,H. a Swaffield,S. a Swann,M. a Turner,F. a Warwick,P. a Winterbottom,M. a Wolpert,A,M. (2014) (4th ed) *reflective teaching in schools*. London : Bloomsbury publishing Plc.

Southern Cross University. (2018) 'Reflective Practice' <http://libguides.scu.edu.au>[Accessed: 4th June 2018].

Webb,S. (2016) 'Gibbs reflective cycle' <http://www.youtube.com/watch?v=swfnHGq6ztg> [Accessed: 4th June 2018].

Elfen 2 Log adfyfyriol

Disgrifiad byr o'r gweithgaredd
Y gweithgaredd rwyf wedi penderfynu gwneud yw plannu llysiau fel grŵp o ddeg plentyn rhwng 2-3 mlwydd-oed i gyd-fynd efo ein thema o fwyta'n iach. Byddwn yn wneud tu allan gan fod y tywydd yn braf efo fy hun ac aelod arall o staff.
Nod/Amcan y gweithgaredd
Y nod yw gwella dealltwriaeth plant o'r byd trwy drafod ble mae bwydydd yn dod yn wreiddiol a sut ydyn nhw'n tyfu er mwyn i ni allu eu bwyta. Bydd y plant hefyd yn datblygu eu hiaith Cymraeg trwy gael cyfle i gyfathrebu wrth blannu.
Eich rôl chi
Fy rôl i oedd paratoi'r offer ac i sicrhau oedd y gweithgaredd yn barod i'r plant ar ôl i ni orffen trafod ble mae'r bwydydd o'r gegin (cornel chwarae rôl efo bwydydd plastig) wedi eu dod o'n wreiddiol, megis anifail, hadau, coeden. Dyletswydd fi hefyd oedd sicrhau oedd yr amgylchedd yn addas, yn lan ac yn ddiogel wrth wneud asesiad risg cyn mynd at i baratoi'r gweithgaredd. Wnaethon ni'r gweithgaredd ar draws y sesiwn efo pob unigolyn yn cymryd rhan. Rôl fi fel ymarferwyr oedd helpu'r plant meddwl am syniadau o ble gall bwydydd cael eu cynhyrchu er mwyn i'r plant ceisio meddwl dros eu hun. Nid yw'r rhai unigolion yn y grŵp wedi datblygu eu sgiliau llaw a llygaid felly rôl fi oedd sicrhau cymorth i ni megis dal y pot a sicrhau bod llai o bridd ar raw nhw i sicrhau cynhwysiant fel gallwn gael cyfle i ddatblygu ar eu sgiliau.
Agweddau cadarnhaol– pam?
Wnaeth y plant mwynhau bod allan yn yr awyr agored, gallwch weld hyn wrth eu mynegiant hwyneb. Wnaeth y drafodaeth efo'r bwydydd plastig cyfrannu ar y llwyddiant o'r plant yn ymgysylltu efo'r dasg eu hun o blannu'r hadau yn y pridd a gorchuddio efo dwr gan gredaf fod hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o'r broses gan oeddwn yn gallu dychmygu beth oedd mynd i dyfu o'r hadau sef letys. Gan fod lefel o ddatblygiad pob plentyn yn wahanol wnaeth hyn rhoi cyfle i'r plant helpu ei gilydd wnaeth dangos cyfeillgarwch yn y grŵp megis dal y pot pryd mae unigolyn yn rhoi'r pridd i mewn.

Agweddau heriol – pam?
Nid oedd un plentyn yn hoffi'r sŵn oedd y mat yn wneud pan oedd y gwynt yn chwythu arno felly oeddwn wedi gadael y gweithgaredd i geisio atal rhag cynhyrfu'n fwy. Yn anffodus wnaeth hyn denu sylw'r rhai o'r plant eraill bant o'r gweithgaredd eu hun ac felly ar ôl i gwpwl gorffen plannu letys eu hun wnaethon ddifaru a dod at y mynediad lle oeddwn i efo'r unigolyn.
Pa wybodaeth arddangoswyd?
Ffeithiau gwyddonol megis bod angen pridd, dwr a haul ar y llysiau er mwyn tyfu. Yn ychwanegol i hyn mae'r plant yn dysgu am ddiet cytbwys, a sut i dyfu bwyd eu hun fel maent yn ymwybodol nid oes angen cemegau er mwyn creu bwyd gan nid yw bwydydd nad ydynt wedi cael eu tyfu'n ffres yn iachus. Oeddwn hefyd yn arddangos cyfeillgarwch fel ymarfer da gan fod y plant yn adlewyrchu eich ymddygiad ac felly'n cymryd tro, help a rhannu o ganlyniad.
Pa sgiliau arddangoswyd?
Dangoswyd sgiliau a dealltwriaeth o'r byd wrth wneud y gweithgaredd wrth sylwi ar y tywydd gan fod y tywydd yn sych wrth i ni blannu'r llysiau ond oedd y plant yn ddeall neu wedi dysgu erbyn diwedd y sesiwn bod angen dŵr arno'r llysiau i dyfu, er os mae'n bwrw glaw yn ystod y penwythnos byddwn yn parhau i dyfu gan fod hwnna ddull o fwydo'r llysiau. Yn ychwanegol i hyn wnaeth y plant dangos sgiliau corfforol megis sgiliau modur manwl wrth dal y rhaw, rhoi baw arno a gallu rhoi yn y pot, oedd hefyd angen balans arnynt i allu gwneud hyn heb ollwng y pridd. Dysgodd y plant yn fras am eu hiechyd wrth drafod gan wneud y gweithgaredd yma gan wnaethon nhw'r cysylltiad bod pob llys rydych yn prynu o'r siop ddim yn iachus i chi gan nid yw pob un wedi tyfu'n naturiol wrth drafod cemegau. Wrth i'r llysiau tyfu gwelodd y plant bod plannu yn helpu'r amgylchedd gan wnaeth eu planhigion denu gwenyn, pyli balod a mathau gwahanol o bryfed.
Pa werthoedd arddangoswyd ?
Rwy'n parchu'r amgylchedd a ddangosais hyn i'r plant trwy hybu nhw i roi'r dŵr i'r planhigion i hyd ddim yn unig y llysiau oeddem ni wedi eu plannu er mwyn helpu'r amgylchedd pan mae'r tywydd yn sych. Dangosais barch at y plant trwy sicrhau bod pawb yn deg wrth rannu efo'i gilydd a trwy fodelu cyfeillgarwch efo'r staff eraill wrth rannu cyfarpar efo nhw. Oedd yn bleser i weld y plant aros am eu tro nhw a rhannu'r cyfarpar efo'i gilydd wrth helpu'r rhai sy'n llai na nhw. Wnes i sicrhau hefyd bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lan cyn paratoi'r gweithgaredd i'r plant. Gwerth arall teimles wnes i

adlewyrchu wrth wneud y gweithgaredd hwn efo'r plant yw dysgu nhw am gydbwysedd diet iach trwy ymestyn y gweithgaredd i sôn am blât iach sy'n hybu bywyd iach os ydych yn cadw'n heini yn ychwanegol i fwya'n iach.

Beth allai cael ei wneud yn wahanol ? Pam?

Gallaf wedi arbrofi efo'r mat pan mae'r plant allan yn chwarae i arsylwi ar ymateb y plant i'r sŵn newydd a rhoi'r cyfle i'r plant dod yn gyfarwydd efo cyn defnyddio ar gyfer gweithgaredd. Gallaf wedi addasu'r defnydd oeddwn yn defnyddio fel mat os oeddwn wedi arbrofi o flaen llaw gan fyddaf wedi bod yn ymwybodol bod unigolyn dim yn hoffi'r sŵn gan nid oedd hyn yn esiampl lwyddiannus o gynhwysiant gan er oeddwn wedi cysuro'r unigolyn wnaeth hyn amharu ar ymgysylltiad eraill tuag at y gweithgaredd. Yn ychwanegol i hyn efallai bydd y sylw oedd yn cael eu tynnu i ffwrdd o'r gweithgaredd heb amharu ar weithgaredd os oeddwn yn gwneud efo grwpiau llai o blant ar y tro, bydd hyn wedi rhoi mwy o gyfle i'r plant sy'n llai datblygu eu sgiliau yn annibynnol heb gael cymorth o'r plant sy'n fwy. Er hyn bydd angen arbrofi er mwyn gweld y dull mwyaf llwyddiannus gan gall hyn lleihau'r cyfle i'r plant sy'n henaf datblygu eu sgiliau trwy arddangos eu dealltwriaeth wrth helpu eraill.

Papur Briffio yn esbonio Adfyfyrio

Beth yw adfyfyrio?

Gwella eich gwybodaeth bresennol er mwyn wella eich ymarfer. Yn ôl Johns et al (2013) pryd rydych yn sefyll dol o'ch rôl ac asesu ymarfer eich hun trwy werthuso ar yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod eich diwrnod er mwyn gwella'r safon o'ch gwasanaeth yn barhaol. Rydych yn cymryd y ddyletswydd i wella eich hun sy'n dangos parch a gofal am addysg y plant yn eich gofal wrth adfyfyrio. Wrth adfyfyrio rydych eich ymarfer yn barhaol yn ôl Wellington (2008).

Reflection-in-action

- Works on getting to the bottom of what is happening in the experienter's processes, decision-making and feelings at the time of the event or interaction.

Reflection-on-action

- Works of sifting over a previous event to take into account new information or theoretical perspectives available in conjunction with the experienter's processes, feelings and actions.

(Source: University of Bradford,2018).

2,848

Sut i adfyfyrio?

Ni allwch reoli pob ffactor sy'n cael dylanwad ar eich ymarfer felly dylai'r ffactorau yma cael eu hystyried yn eich adfyfyri. Er hyn mae'n bwysig i ymarferwyr adnabod ffactorau dylanwad gall ymarferwyr rheoli megis perthynas rheng yr oedolyn a'r plant, dealltwriaeth o gefndiroedd unigolion, diddordeb yn hunaniaeth plant er mwyn sicrhau diddordeb y plant yn addysg a datblygiad personol (Wilson,E). Credaf Wilson (2008) y fwy mae ymarferwyr yn adfyfyrio eu hymarfer bydd eu sgiliau addasu yn ôl anghenion unigolion yn datblygu'n naturiol.

Yn ôl Burns (2012) pryd mae unigolyn yn dysgu a datblygu sgiliau maent yn adfyfyrio'n llwyddiannus. Credaf Hopkins et al (1999) bod pwysigrwydd ar gynllunio er mwyn datblygu sgiliau unigolion yn eich gofal ond heb adfyfyrio mae'n ansicr os oedd y gweithgareddau'n llwyddiannus.

Pwy dylai adfyfyrio a phryd?

Yn anffodus mae llawer o ymarferwyr ond yn adfyfyrio os mae rhywbeth yn digwydd neu ar ddiwedd tymhorau ond dylai amser cael eu rhoi yn benodol i adfyfyrio'n aml. Dylai pawb sy'n cynnig gwasanaeth o unrhyw fath i eraill adfyfyrio ar eu hymarfer er mwyn sicrhau safon uchel gan fod dyletswydd efo'ch dros yr unigolion yn eich gofal.

Credaf Wellington (2008) heb adfyfyrio ar ymarfer bydd llawer o ymchwil heb gael eu gwneud gan fod llawer o ddamcaniaethwyr wedi dod o hyd i'w ddamcaniaethau trwy arsylwi, adfyfyrio a hunanasesu.

Yn ôl Wilson (2013) i fod yn Athro neu Athrawes llwyddiannus mae ymwybyddiaeth o'ch gwerthoedd yn angenrheidiol. Wrth adfyfyrio'n gyson ar eich ymarfer bydd adnabod gwendidau, cryfderau, gwerthoedd a sgiliau'n dod yn naturiol sy'n helpu datblygiad personol yn ychwanegol i ymarfer.

Turning experience into learning



Adapted from Boud et al (1985)

(Source: The Project Based Learning Tool-kit,2018)

Modelau


Mae llawer o fodelau i ddangos sut i adfyfyrio'n llwyddiannus ond dywedwyd Wellington (2008) bod pwysigrwydd i unigolion darganfod model sy'n orau i'w cynnydd personol, er bod yn bosib cymysgu elfennau er mwyn dod o hyd i ddull adfyfyrio llwyddiannus. Yn ôl Sinfield (2012) mae model sy'n hybu ail-wneud neu greu cynllun ar gyfer gwella ymarfer yn fodel o ddefnydd gennym ni fyddwch yn mynd dol ar eich datblygiad. Amser yw'r prif ffactor i adfyfyron llwyddiannus gan fod angen amser ymarfer a dod i adnabod y fodel sydd wedi cael eu dewis a bod amser penodol yn cael eu rhoi tuag at adfyfyrio.

Kolb

Yn ôl Renolds (2013), gan fod addysg yn ymarfer ac yn llawn gweithgareddau dylid ymarferwyr parhau i adfyfyrio ar yr hyn maent yn arbrofi er mwyn sicrhau bod amcanion dysgu'n cael eu cwrdd wrth addasu elfennau o'r gweithgareddau sy'n profi'n llai llwyddiannus nag eraill. Ar gyfer ymarferwyr sy'n rhan o'r gweithgareddau sy'n cael eu darparu i'r plant mae model Kolb o adfyfyrio yn un gallwch wneud ar y cyd ond efallai bod ymarferwyr profiadol yn teimlo nid oes digonedd o wybodaeth yn cysylltu efo'r fodel. Trwy adfyfyrio ar brofiadau rydych yn cyflawni addysg arbrawfiadol i'r plant yn eich gofal.

Pam adfyfyrio?

Mae'n bwysig adfyfyrioar eich proffiadau, ymarfer, gweithgarreddau ac wasanaeth presennol er mwyn datblygu'n broffesiynol. Wrth meddwl am yr hyn rydych yn ymarfer nawr gallwch adnabod eich gwendidau er mwyn gwella ac addasu gweithgarreddau. Yn ôl Wilson (2013) nid yw'n bosib i unigolyn cyrraedd eu potensial llawn wrth adlewyrchu dulliau eraill o ymarfer yn unig. Mae sylwadau, cymorth a phrofiadau eraill yn helpu tuag at adfyfyrio eich hun ond er mwyn datblygu mae'n angenrheidiol i hunanwerthuso i sicrhau dyfnder a phwrrpas trwy gydol y broses. Credaf Driscoll et al (2015) bod pwysigrwydd ar athrawon adnabod eu cryfderau a gwendidau i wella eu hymarfer dysgu. Gan fod anghenion plant, teuluoedd a chymunedau'n amrywio'n barhaol mae newidiadau parhaol i ddulliau llwyddiannus o addasu. Wrth adfyfyrio mae addasiadau'n cael eu gwneud yn naturiol sy'n sicrhau bod yr Athro yn ateb i ofynion ac anghenion yr unigolion yn eu gofal. Cytunwyd Curtis (1998) bod dyletswydd gan ymarferwyr i sicrhau bod cyfarpar a cyfleoedd addas ar gael i blant wrth gynllunio'n ofalus i sicrhau cynhwysiant ac eich bod yn hybu'r plant i ddatblygu eu sgiliau, heb adfyfyrio nid yw'n bosib mesur eich llwyddiant yn ddigonol i sicrhau ymarfer da.



- Burns,T. a Sinfield,S. (2012) *Essential Study Skills. The complete guide to success at University*. (3rd ed). Croydon:Sage.
- Curtis,A. (1998) *a curriculum for thepre-school child*. (2nd ed) London:Routledge.
- Driscoll,P. a Lambirth,A. et al. (2015) *The Primary Curriculum*. London:Sage.
- Hopkins, C. a Gifford,S. a Pepperell,S. (1999) *Mathematics in the Primary School*. (2nd ed) London:David Fulton Publishers.
- Johns,S. a Burnie,S. a Lee,S. a Brooks,S. a Jarvis,J. '*Becoming a reflective practitioner*'. Dawsonera : Wiley Blackwell. [e-book] . Available at : www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk [Accessed: 14th June 2018].
- Plymouth Marjon University. (2018) 'Reflective Practice & Gibbs Reflective Cycle'. <http://academicskills.marjon.ac.uk> [Accessed: 14th June 2018].
- Renolds,C. (2013) 'The 3 minute Kolb' Youtube. <http://www.youtube.com/watch?v=ObQ2DheGOKA> [Accessed: 14th June 2018].
- The Project Based Learning Tool-kit (2018) ' + Reflection' <https://project-based-learning-toolkit.com/reflection/> [Accessed: 14th June 2018].
- Wellington,J. (2008) *Educational Research*. London:Continuum.
- Wilson,E. (2013) *School-based Research*. (2nd ed) Singapore:Sage.
- University of Bradford. (2018) 'Refective Models and Frameworks'. <https://www.bradford.ac.uk> [Accessed: 14th June 2018].

Elfen 4 Cynllun Datblygu Personol

Agwedd ar gyfer datblygiad pellach	Pam?	Sut?	Pwy/Ble?	Pryd?
1. Sicrhau cynhwysiant	Ers dechrau cydweithio efo plant mae'r nifer sy'n cael eu hasesu am fod ar y sbectrwm awtistaidd wedi cynyddu ac felly er mwyn sicrhau cynhwysiant wrth gynllunio teimlaf fod angen ehangu fy nealltwriaeth arnynt. Yn ôl Menter (2010) mae angen i ymarferwyr efo'r gallu i addasu yn ôl amrywiaeth, cefndiroedd, teuluoedd, anghenion, cymdeithas a materion moesegol.	Os oeddwn yn wneud cwrs byddai'n fwy ymwybodol o weithgareddau bydd yn fuddiol i blant awtistaidd bydd yn fy ngalluogi i addasu cynlluniau ynghyn ac anghenion yr unigolion. Yn ychwanegol i hyn byddai'n fwy gwyliadwrus o'r effaith mae awtistaidd yn cael ar unigolion fel gallai adnabod y rhain yn unigolion yn ychwanegol i helpu'r rhai syeisoed cael eu hasesu.	Mae cyrsiau dydd i gael ar lein felly rwy'n bwriadu gwneud hyn a gobeithio llwyddo i dderbyn tystysgrif a gobeithio parhau dysgu am awtistaidd wrth ddefnyddio llyfrau i ehangu ar y wybodaeth rwyf eisoes wedi dysgu dros yr haf.	14eg o Gorffennaf-Medi.
2. Dulliau Dysgu yn ol ymarfer da.	Rhan o'r flynyddoedd cynnar yw gwneud gweithgareddau sy'n cyfuno'r meysydd dysgu. Credaf fod ymweld â sut mae amrywiaeth o leoliadau yn addasu'r blynyddoedd cynnar yn sicrhau bod addysg a gweithgareddau cyfoethog yn cael eu rhoi i'r plant yn fy ngofal.	Arsylwi ar y dulliau dysgu sy'n cael eu harddangos yn y lleoliadau megis hunangyfeiried, dysgu trwy chwarae, y cyfarpar sydd ar gael i'r plant, y meysydd dysgu sy'n cysylltu efo'r gweithgareddau ac os yw amcanion a nod y gweithgareddau'n cael eu cwrdd er mwyn gwella datblygiad yr unigolion sy'n cymryd rhan.	- Ysgol Newtowne (Reggio Emilia Approach yn Cambridge). - Yellow Dot Nursery (Damcaniaeth Frobel yn Hampshire). - St John's Wood (McMillan Approach yn Llundain).	2019
3. Cyfarthrebu efo rhieni a theuluoedd.	Rwy'n adnabod fy mhod i ond yn trafod i rhieni os oes rhaid rhannu gwybodaeth amdano'r	Gwella'r safon o Saesneg trwy mynd i Coleg i wella fy TGAU ac i wella fy hyder yn y iaith.	Coleg sir Gar Llanelli	Medi 2018

	plentyn ond mae rhai rhieni'n hoffi gwybod sut mae diwrnod eu phlentyn wedi bod.			
4. Creadigrwydd	Yn ol Wright (2009) mae angen creadigrwydd wrth cynllunio ac addurno'r amgylchedd rydych yn addysgu'r plant ynddo er mwyn denu sylw'r plant.	Ymweld ac arsylwi ar amrywiaeth o leoliadau ac arsylwi ar yr effaith credaf fod yr amgylchedd a chynllunio creadigol yn cael ar ymgysylltiad y plant efo'r addysg.	Ar draws Sir Gaerfyrddin efo caniatad Menter Cwm Gwendraeth Elli.	Gorffennaf 2018.
5. Parch	Wrth adnabod fod plant yn edrych ar ymarferwyr fel model rôl rwy'n sicrhau fy mod yn dangos parch tuag at y plant fel sy'n disgwyl i'r plant dangos yr oedolion.	Er hyn rwy'n adnabod fy mod yn torri ar draws y plant yn trafod i mi weithiau, wrth geisio rhoi cymorth iddyn nhw os ydynt yn cael trafferth dweud geiriau'n gywir er enghraifft ond teimlaf fel nad yw hyn yn helpu pob unigolyn gan fod rhai yn teimlo'n siomedig ac felly'n torri'r sgwrs yn fyr gan nid ydynt yn sylweddoli fy mod i'n medru helpu.	Credaf fod hi'n well i gael llyfrau personol i bob unigolyn er mwyn adnabod y camgymeriadau rydyn nhw'n wneud ar lafar ond i barchu'r faith bod nhw yn y broses o ddysgu'r iaith ac felly nid oes angen denu sylw i gamgymeriadau ieithyddol wrth i'r plant trafod efo'ch. Y ffordd hon nid ydych yn torri ar draws yr unigolion ond rydych hefyd yn sylweddoli eu camgymeriadau er mwyn datblygu hyn yn y dyfodol agos.	25ain o Mehefin.
6. Gofal	Mae gan plant yr hawl i warchogaeth, diogelwch a iechyd yn ychwanegol i cynhwysiant, addysg a llais (Children's Right Wales, 2016).	Gwella cydweithrediad amlasiantaethol er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth sydd angen efo'r asiantaethau priodol ynghyn a datblygiad ac unrhyw bryderon am unigolion er mwyn sicrhau diogelwch, safon uchel o ofal ac addysg ac i alluogi cynhwysiant.	Cynllunio cyfarfodydd amlasiantaethol misol fel bod dyletswydd a dyddiad pendant i sicrhau cynyddiad yn ddatblygiad pob unigol.	20fed o Gorffennaf.

Children's Rights Wales. Llywodraeth Cymru. (2016) 'Hawliau Plant Children's Rights'. <http://www.childrensrights.wales> [Accessed: 13eg Mehefin].

Menter, I. (2010) *Teachers – formation, training and identity : a literature review*. Newcastle Upon Tyne : Creativity, Culture & Education.

Wright, T. (2009) *How to be a Brilliant Teacher*. Oxon : Routledge

